Dewi Sant, ganed *c.* 520
Nawddsant Cymru

Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi.

Dewi Sant

Cadwai gŵr o'r enw Peulin, un o ddisgyblion Illtyd, ysgol ym Mhuliniog ger Narberth a'r Tŷ-gwyn-ar-Daf. I'r ysgol hon yr aeth Dewi i dderbyn addysg. Dywedid mai Sant, brenin Ceredigion, oedd tad Dewi, ac mai gwraig o'r enw Non oedd ei fam.

Y mae hanes fod genedigaeth Dewi wedi ei rhagfynegi gan angel a ymddangosodd i'w dad. Un diwrnod aeth Sant i hela ar lan afon Teifi a daeth o hyd i garw, pysgodyn a nyth gwenyn. Yn ôl gorchymyn yr angel rhoddodd ran o'r tri hyn yn rhodd i fynachlog gerllaw, a dywedid bod y tair rhodd yn arwyddo tair rhinwedd a fyddai'n perthyn i'w fab.

Yn ôl pob tebyg ganwyd Dewi tua'r flwyddyn 520 mewn bwthyn a enwyd yn ddiweddarach yn Gapel Non. Bedyddiwyd ef mewn ffynnon gerllaw a chafodd ei addysg gynnar yn Henfynwy cyn mynd i ysgol Peulin yn ddiweddarach. Yno rhoddodd ei ddwylo ar lygaid Peulin, a oedd yn ddall, ac fe gafodd yr athro ei olwg yn ôl.

Ar ôl iddo orffen ei addysg aeth Dewi ar daith trwy Loegr a Chymru i rannu'r Efengyl â'r trigolion. Dywedir iddo ffoi i Lydaw am gyfnod oherwydd pla difrifol a ledodd trwy Gymru, ac yno y bu farw ei fam. Gelwid Dewi yn Dewi Ddyfrwr, enw sy'n awgrymu ei fod yn perthyn i blaid o fynaich a bwysleisiai fywyd syml a hunanaberthol. Eu bwyd arferol oedd llysiau a dŵr, a gweithient yn eithriadol o galed yn trin y tir. Diben y bywyd caled hwn oedd disgyblu'r corff er mwyn i'r enaid gael rhyddid llawn i wasanaethu Duw. Adeiladodd Dewi fynachlog i'w ddilynwyr yng Nglyn Rhosyn lle byddent yn helpu tlodion yr ardal. Heddiw saif Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar y man lle'r oedd y fynachlog.

Cysylltir nifer o chwedlau â Dewi, fel yr hanes amdano'n pregethu yn Llanddewibrefi a'r tir yn codi o dan ei draed er mwyn i bob un yn y dorf ei weld a'i glywed.

Yn ystod teyrnasiad y Pab Calixtus II cyhoeddwyd Dewi yn Sant a'i gynnwys yng nghalendr Seintiau Eglwys y Gorllewin. Y mae'n amlwg bod ei ddylanwad yn eithriadol ac wedi ymestyn ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Y mae ei enw wedi ei gysylltu ag eglwysi yng Nghymru, Llydaw, Cernyw a de-orllewin Lloegr. Bu farw ar 1 Mawrth, oddeutu'r flwyddyn 588.